






Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Y Gell Cyngor Technegol

## Crynodeb o'r Cyngor

1 Mehefin 2021



## Crynodeb o'r prif bwyntiau

- **Ar 26 Mai, mae nifer yr achosion yng Nghymru wedi aros yn sefydlog ar 8.4** achos fesul 100k o'r boblogaeth. Mae amrywiad sylweddol yn parhau ar lefel ranbarthol o ran newid wythnosol, er bod hyn yn erbyn cefndir o ddigwyddedd achosion isel.
- Mae amcangyfrif diweddaraf **SAGE** (y Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau) o  $R_t$  (y rhif atgynhyrchu) ar gyfer Cymru rhwng **0.8 a 1.1** (cyfwng hyder o 90%) ac amcangyfrifir bod y gyfradd twf rhywle **rhwng crebachu o -3% a chynyddu o +1%** y dydd. (Sylwer bod yr amcangyfrifon o  $R_t$  a'r gyfradd twf gan SAGE yn cynrychioli trosglwyddiadau COVID-19 2 i 3 wythnos yn ôl yn hytrach na heddiw).
- Yr amcangyfrif diweddaraf o  $R_t$  gan **lechyd Cyhoeddus Cymru** yw rhwng **0.84 ac 1.02** (cyfwng hyder o 95%). Mae llai o oedi mewn perthynas â'r amcangyfrif hwn nag un SAGE, ac mae'n cynrychioli trosglwyddiadau o tua 1 wythnos yn ôl. Fodd bynnag, mae'n defnyddio methodoleg wahanol, sy'n seiliedig ar episodau profi SARS-Cov-2 positif yn unig.
- Er bod y niferoedd yn mynd i fod yn uwch oherwydd bod data yn cael eu cofnodi'n barhaus, am 22:00 ar 28 Mai 2021, roedd **2,128,063 o ddosau cyntaf** (+58,374 ers yr wythnos flaenorol) ac **1,081,162 o ail ddosau** (+111,480 ers yr wythnos flaenorol) o frechlyn COVID-19 wedi cael eu rhoi yng Nghymru ac wedi'u cofnodi ar System Imiwneiddio COVID-19 Cymru.
- Ar gyfer yr wythnos rhwng 16 a 22 Mai 2021, mae'r [arolwg heintiadau COVID-19](#) yn amcangyfrif bod y gyfradd heintiadau COVID-19 a gafwyd yn y gymuned yng Nghymru oddeutu **1 o bob 3,850 o bobl** (cyfwng credadwy o 95%: 1 o bob 24,320 i 1 o bob 1,380), neu 800 o bobl yn ystod y cyfnod hwn. Gan fod y cyfraddau positifedd yn isel iawn ar hyn o bryd mae'n anodd nodi tueddiadau oherwydd eu bod yn cael eu heffeithio'n haws gan newidiadau bach yn nifer y bobl sy'n profi'n positif o wythnos i wythnos.
- Mae [Sefydliad lechyd y Byd](#) bellach wedi neilltuo labeli 'hawdd eu dweud' newydd ar gyfer VOI a VOC i'w defnyddio wrth gyfathrebu â'r cyhoedd. Maent fel a ganlyn; Amrywiolynnau sy'n peri pryder (VOC) 'Alpha' (B.1.1.7, a ganfuwyd gyntaf yn y DU), 'Beta' (B.1.351, a ganfuwyd gyntaf yn Ne Affrica), 'Gamma' (P.1, a ganfuwyd gyntaf ym Mrasil) a 'Delta' (B.1.617.2, a ganfuwyd gyntaf yn India). Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer nifer cynyddol o amrywiolynnau ac yn osgoi'r arfer cyffredin, a allai hefyd achosi stigma, o ddefnyddio enw'r wlad neu'r ardal lle ganfuwyd yr amrywiolyn gyntaf.
- Ar 27 Mai, mae **'Alpha'** wedi'i ganfod ym mhob rhan o Gymru ac mae'n parhau i dyfu; mae 13,372 (+189 ers yr adroddiad diwethaf) o achosion tebygol neu a gadarnhawyd ar sail genomeg wedi'u nodi.
- Ar 27 Mai, mae **58 (+30 ers yr adroddiad diwethaf)** o achosion tebygol neu a gadarnhawyd ar sail genomeg o'r **'Delta'** wedi'u canfod yng Nghymru. Er bod nifer yr achosion yn gyffredinol yn parhau'n isel, mae'r amrywiolyn hwn **yn parhau i fod yn destun pryder** oherwydd ei gyfradd twf uwch, y trosglwyddiadau yn y gymuned a welwyd mewn ardaloedd yn Lloegr, y clwstwr o achosion a welwyd yng Ngogledd Cymru, y dystiolaeth o ddihangiad

imiwnyddol, ac oherwydd na wyddom a oes ganddo'r potensial i gynyddu niwed drwy gynyddu nifer y derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau (gweler hefyd wybodaeth friffio TAG [yma](#)).

- Ar lefel genedlaethol, mae derbyniadau o achosion a gadarnhawyd i'r ysbyty ac achosion a gadarnhawyd sy'n gleifion mewnol wedi gostwng ychydig o gymharu â'r wythnos flaenorol. Yn ystod yr wythnos ddiweddaraf, gostyngodd derbyniadau i wardiau gofal critigol hefyd.
- Mae'r data symudedd diweddaraf yn dangos cynnydd yn bennaf yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Mae lefelau symudedd, mewn rhai achosion, o gwmpas lle'r oeddent yr haf diwethaf – sef yr uchaf ers y cyfyngiadau symud cyntaf.
- Sylwer, oherwydd gŵyl y banc, fod mwy o oedi mewn perthynas â rhai ffynonellau data nag eraill.

### **Papurau TAC/ SAGE a gyhoeddwyd yr wythnos hon**

- [Y Grŵp Cyngor Technegol: Gwybodaeth friffio COVID-19 ynghylch VOC-21APRIL-02 \(B.1.617.2\)](#)
- [SPI-M-O: Medium-term projections, 12 March 2021](#)
- [UCL: Relative importance of different settings for COVID-19 transmission, 13 May 2021](#)
- [SARS-CoV-2 variants of concern and variants under investigation in England: Technical briefing 13](#)